**Eitem ar yr agenda: 11**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| DYDDIAD: | 20 MEHEFIN 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | Y TRYSORYDD |
| PWNC: | RHEOLI'R TRYSORLYS |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad trysoryddol blynyddol yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod, ac mae'n sôn am weithgarwch y trysorlys yn 2004-05. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am y gwir Ddangosyddion Darbodus am 2004-05, yn unol â gofynion y Côd Darbodus.

## 2. CRYNODEB O'R STRATEGAETH Y CYTUNWYD ARNI AR GYFER 2004-2005

Roedd ymgynghorwyr yr Awdurdod, sef Butlers, yn rhagweld y byddai blwyddyn ariannol 2004-2005 yn gweld cynnydd graddol yn y cyfraddau llog i wrthbwyso dyled fwyaf erioed y sector bersonol ym Mhrydain, ac i wrthbwyso pwysau chwyddiant. Y strategaeth yn seiliedig ar yr hyn a ragwelid, oedd benthyca yn gynnar yn y flwyddyn er mwyn manteisio ar y cyfraddau llog is, ac i fuddsoddi cronfeydd dros ben yn unol â'r rhagolygon diweddaraf o'r farchnad.

## 3. Y CEFNDIR ECONOMAIDD AR GYFER 2004-2005

Fel y rhagwelwyd, cododd y cyfraddau llog yn araf trwy gydol y flwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2004 gyda chyfradd sylfaen o 4.00% yn codi i 4.75% ym mis Awst lle arhosodd ar y lefel hon am weddill y flwyddyn. Arweiniodd anobaith yn y farchnad, a ategwyd gan gynnydd yn y gyfradd sylfaen, at arian a fuddsoddwyd am gyfnod hirach yn codi yn uwch na 5%.

## 4. GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2004-2005

### 4.1 BENTHYCA

Y Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus sy'n darparu'r holl fenthyciadau cyfalaf ar gyfer yr Awdurdod. Y swm a fenthyciwyd yn 2004-2005 oedd £3,150,000, ac roedd hynny yn unol â'r Terfyn Benthyca a gyfrifwyd ar gyfer yr Awdurdod. Y sefyllfa o ran benthyca ar 31 Mawrth 2005, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oedd:

| | 31 Mawrth 2005 | | 31 Mawrth 2004 | |
|---|---|---|---|---|
| | Prifsymiau | Y gyfradd ar gyfartaledd % | Prifsymiau | Y gyfradd ar gyfartaledd % |
| Dyled Cyfradd Llog Sefydlog | 6,149,428 | 4.744 | 2,999,428 | 4.876 |
| Dyled Cyfradd Llog Amrwyiol | 964,000 | 4.956 | 964,000 | 4.750 |
| Cyfanswm y Ddyled | 7,113,428 | 4.850 | 3,963,428 | 4.813 |

Roedd y newid yn sefyllfa'r trysorlys oherwydd y newid o brydlesu i fenthyca i ariannu'r gwariant cyfalaf.

4.2 BUDDSODDIADAU

Mae polisi buddsoddi'r Awdurdod yn cael ei lywodraethu gan Gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cael ei roi ar waith yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac nid oedd yr Awdurdod wedi cael unrhyw drafferthion hylifedd.

Cafodd yr holl arian dros ben ei fuddsoddi ar y farchnad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Balans y buddsoddiadau ar gyfartaledd am flwyddyn oedd £4,000,000. Balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2005 oedd £4,770,000, o'i gymharu â £3,400,000 ar 31 Mawrth 2004. Mae balans y buddsoddiadau yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd y darpariaethau uwch a'r tanwariant yn y refeniw.

Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi am 2004-2005 oedd £100,000, a'r gwir incwm o fuddsoddiadau a gafwyd oedd £152,981. Y rheswm am y cynnydd sylweddol yn yr incwm a ddisgwyliwyd yw cyfuniad o falsanau arian uwch, a strategaeth fuddsoddi ddarbodus.

5. <u>DANGOSYDDION DARBODUS A MATERION CYDYMFFURFIAETH</u>

Mae gofyn i'r Cyngor, trwy'r Côd Darbodus, i adrodd ynghylch y gwir ddangosyddion darbodus wedi diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn rhoi rhestr o'r dangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn, naill ai'n rhoi trosolwg neu gyfyngiad ar weithgarwch y trysorlys, a dangosir y rheini isod:

| | **31 Mawrth 2005 Gwir £'000** | **31 Mawrth 2005 Dangosydd Gwreiddiol £'000** |
|---|---|---|
| Y sefyllfa o ran benthyca | 7,113 | 7,081 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 6,948 | 7,081 |

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddiben cyfalaf, ac mae hyn yn fodd i fesur sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion, fel y gwelir uchod. Er mwyn sicrhau yn y cyfnod canolig mai benthyciadau'n net o fuddsoddiadau yn unig a wneir at ddibenion cyfalaf, ni ddylai benthyciadau, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na'r Gofyniad ar gyfer 2004/05 ynghyd â'r newidiadau disgwyliedig yn y Gofyniad ar gyfer 2005-2006 a 2006-2007. Mae'r tabl uchod yn tynnu sylw at y ffaith fod sefyllfa'r Awdurdod o ran benthyciadau net wedi mynd yn uwch na'r Gofyniad ar gyfer 2004-2005 oherwydd ariannu'r Rhaglen Gyfalaf o'r tanwariant refeniw. Bydd y sefyllfa'n cael ei chywiro yn 2005-2006 gan y bydd angen rhagor o fenthyciadau i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

| | 2004/05<br>£'000 |
|---|---|
| Dangosydd Gwreiddiol – Terfyn a ganiateir | 11,635 |
| Dangosydd Gwreiddiol – Ffin Weithredol (*Operational Boundary*) | 9,635 |
| Y sefyllfa uchaf o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 7,113 |
| Y sefyllfa isaf o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 3,963 |

Y Terfyn a Ganiateir yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy" sy'n angenrheidiol dan Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor, yn ystod 2004-2005, wedi cynnal ei fenthyca gros o fewn y Terfyn a Ganiateir.

Y Ffin weithredol (*Operational Boundary*) yw'r sefyllfa a ddisgwylir o ran benthyciadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac mae'r cyfnodau pryd y mae'r wir sefyllfa naill ai yn is neu dros y Ffin yn dderbyniol yn ddibynnol ar beidio â mynd heibio'r Terfyn a Ganiateir.

6. ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys am 2004-2005.

K W FINCH
**Trysorydd**

## ***ATODIAD A***

| | | 2004/05 Gwir | 2004/05 Dangosydd Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 3,875,615 | 3,281,200 |
| 2 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 6,948,272 | 7,081,200 |
| 3 | Benthyca | 7,113,428 | 7,081,200 |
| 4 | Buddsoddiadau | 4,770,000 | 3,800,000 |
| 5 | Terfyn a Ganiateir | 7,113,428 | 11,635,000 |
| 6 | Ffin Weithredol | 7,113,428 | 9,635,000 |
| 7 | Cymhareb y Costau Ariannu i Lif Refeniw Net | 2.22% | 1.76% |
| 8 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddiad Cyfalaf ar y Cyfraniadau oddi wrth yr Awdurdodau Cyfansoddol | 164,727 | 85,724 |
| 9 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 86% | 55% - 90% |
| 10 | Benthyciadau Cyfradd Amrywiol fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 14% | 10% - 45% |
| 11 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 8% | 0% - 30% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 6% | 0% - 30% |
| | 2 flynedd i 5 flynedd | 14% | 0% - 50% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 30% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a throsodd | 42% | 20% - 90% |
| | | | |